DOGFEN DENDRO – I GYFLWYNO
CYNLLUN HYFFORDDIANT FIRST POST YNG NGHYMRU

Annwyl Gyfaill,

Mae Skillset Cymru, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y Diwydiannau Clyweledol yn dymuno gwahodd tendrau ar gyfer cyflwyno cynllun hyfforddiant ôl-gynhyrchu newydd o'r enw First Post Cymru. Mae'r cynllun ar waith eisoes yn Llundain ac rydym ar hyn o bryd yn sefydlu'r cynllun yng Nghymru, Bryste a Manceinion.

Anelir First Post Cymru at aelodau staff iau o fewn cwmnïau adnoddau a chwmnïau cynhyrchu y gallai fod ganddynt wasanaethau adnoddau mewnol, er mwyn rhoi sylfaen gadarn iddynt mewn gweithrediadau technegol, sgiliau cwsmeriaid a sgiliau masnachol. O ganlyniad i alw mawr gan y sector yng Nghymru rydym yn awyddus iawn i nodi darparwr hyfforddiant o ansawdd uchel i gyflwyno'r cynllun ar ein rhan.

Yn amgaeedig gweler copi o fanyleb y tendr y gallai fod o ddiddordeb i chi neu eich cydweithwyr. Mae croeso i chi ei hanfon ymlaen at unrhyw bartïon â diddordeb.

Yn gywir,

Gwawr Hughes
Cyfarwyddwraig Skillset Cymru

skillset

Manyleb y Tendr ar gyfer Cyflwyno "First Post Cymru"

1. Mae **ôl-gynhyrchu** yn sector pwysig yn y DU, gan gyflogi amcangyfrif o 15,000 o bobl gyda throsiant o bron i £1.4 biliwn y flwyddyn. Yn ôl Cyfrifiad Cyflogaeth Skillset a Chytundeb Sgiliau Sector Skillset i Gymru, mae'r sector adnoddau yn cyflogi 258 o bobl yng Nghymru (yn cynnwys gweithwyr llawrydd oedd yn gweithio ar Ddiwrnod y Cyfrifiad), gydag 143 wedi'u cyflogi mewn ôl-gynhyrchu, a llogi stiwdios/offer yn darparu gwaith i 116. Mae ymchwil Skillset i'r materion sy'n bygwth dyfodol y sector hwn wedi amlygu'r angen am gynllun hyfforddiant strwythuredig i newydd-ddyfodiaid.

2. Mae **First Post** yn gynllun hyfforddiant modwlar i newydd-ddyfodiaid sy'n gyflogeion (yn hytrach na gweithwyr llawrydd). Mae wedi'i dargedu at aelodau staff iau i roi sylfaen gadarn iddynt mewn gweithrediadau technegol, sgiliau cwsmeriaid a sgiliau masnachol. Bydd ffocws arbennig ar ôl-gynhyrchu, ond bydd llawer o'r cwrs yn werthfawr iawn i staff iau o fewn y diwydiannau teledu, ffilm, animeiddio a chyfryngau rhyngweithiol sy'n awyddus i'w staff gael eu hyfforddi mewn gweithrediadau sylfaenol y diwydiant. Cynlluniwyd y cynllun i roi i newydd-ddyfodiaid yn y diwydiant sgiliau rhedeg ardderchog er mwyn iddynt gyfrannu'n bositif at fusnes eu cyflogwr.

2.2 Trwy gyfrannu at gynllun a chyflwyniad y cynllun, bydd y diwydiant clyweledol yn sicrhau eu bod yn datblygu staff newydd gyda'r sgiliau iawn, ar yr adeg iawn, am y gost iawn.

2.3 Mae'r cynllun hwn yn bosib o ganlyniad i fuddsoddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r diwydiant ôl-gynhyrchu, ac mae'n rhan o strategaeth sgiliau Skillset i Gymru.

3. Rydym yn gwahodd tendrau gan ddarparwyr hyfforddiant gyda'r arbenigedd addas i gyflawni datblygu a gweithredu First Post Cymru. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Ymgynghori â chyflogwyr ar strwythur a chynnwys y cynllun (mae 7 cwmni eisoes wedi mynegi diddordeb wrth Skillset Cymru ond mae angen ymgynghori ymhellach â'r cwmnïau hyn a chwmnïau ychwanegol).
- Rheoli Grŵp Llywio sy'n cynnwys yr holl bartïon sy'n ymwneud â chyflwyno'r model.
- Dethol ymgeiswyr ar gyfer y cynllun.
- Dethol personau o'r lefel uchaf o fewn y diwydiant fel tiwtoriaid, siaradwyr a mentoriaid ar y cynllun.
- Cyflwyno'r cynllun yn effeithiol ac yn unol â gofynion y cwmni.
- Monitro datblygiad hyfforddeion a chydgysylltu â'u rheolwyr llinell o fewn y cwmni.
- Cydgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nhermau cysylltu'r cynllun â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.
- Rhoi adborth i'r Grŵp Llywio ar ddatblygiadau mewn perthynas a'r cynllun.
- Rhoi adborth i Banel Sgiliau'r Diwydiant Skillset Cymru ar y cynllun.

Bydd Grŵp Llywio First Post Cymru yn goruchwylio'r contract. Bydd y cynigydd llwyddiannus yn adrodd ar sail weithredol yn uniongyrchol i Triston Wallace, Rheolwr y Sector Adnoddau yn Skillset.

Bydd angen i ddarparwyr hyfforddiant ddangos profiad sylweddol o fod wedi ymgymryd â gwaith tebyg, yn enwedig mewn perthynas â newydd-ddyfodiaid a diwydiant y cyfryngau.

Bydd y gwaith o ddiddordeb i'r rheiny sy'n ymwneud â datblygu sgiliau, dysgu galwedigaethol a hyfforddiant, yn cynnwys asiantaethau a darparwyr hyfforddiant a chwmnïau cyfryngau.

Bydd y wybodaeth a gesglir mewn perthynas â'r cwrs yn eiddo i Skillset a bydd cwricwlwm presennol First Post yn parhau i fod yn eiddo i Skillset.

3. Meini prawf mewn perthynas â dethol cwmnïau a hyfforddeion

Rydym yn bwriadu lansio'r cynllun hwn ym mis Medi 2007. Gan y bydd gordanysgrifio o fewn y sector hwn ar gyfer rhaglen fel hon, rydym wedi nodi meini prawf ar gyfer dethol yr hyfforddeion a'r cwmnïau fydd yn gallu cymryd rhan.

3.1 Bydd y meini prawf i *gwmnïau* sy'n dymuno cymryd rhan yn cynnwys:

- Wedi'u lleoli yng Nghymru
- Darparu dau neu fwy o'r canlynol fel gweithgareddau craidd – golygu, sain, graffeg, dyblygu a telecine
- Dangos ymrwymiad i sgiliau'r diwydiant yn y dyfodol (ee drwy aelodaeth o gyrff masnach priodol)
- Cwmni Cyfyngedig

3.2 Meini prawf i *unigolion* sy'n dymuno cymryd rhan:

- Contract llawn amser drwy gydol y cwrs
- Wedi gweithio am 3 blynedd neu lai yn y diwydiant
- Yn gweithio mewn cwmni cynhyrchu wedi'i leoli yng Nghymru (fel a ddiffinnir yn 3.1)
- Heb fod yn Gyfarwyddwr Cwmni
- Cytuno i'r "Cod Ymddygiad"

4. Cynnwys y Cwrs

Cyflwynir y cynnwys mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn cynnwys dysgu drwy arweiniad, hunan-addysgu, dysgu seiliedig ar waith, arfarniadau wyneb yn wyneb, darlithoedd a gweithdai, ar-lein ac ati. Disgwylir y bydd y gwerthuso ar ffurf "Pasport Sgiliau" gyda chynnydd yn cael ei fesur gan yr asiant cyflwyno a'r cwmni. Mae cwricwlwm llawn wedi'i gysylltu â'r ddogfen dendr hon.

5. Amserlen

Rhaid derbyn ceisiadau wedi'u cwblhau erbyn	5pm, 7fed Mehefin 2007
Cynhelir trafodaeth ddilynol	9:30 – 5:30pm, 14 Mehefin
Cyhoeddi'r partneriaid cyflwyno a ddewiswyd	18 Mehefin, 2007
Dechrau Cyflwyno'r Hyfforddiant	Medi 2007

Dylid cyfeirio'r cais llawn ac unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r broses ymgeisio at Vicky Jones, Skillset Cymru, 33-35 West Bute Street, Caerdydd, CF10 5LH drwy e-bost a chopi caled. Vickyj@skillset.org Ffôn: 02920 452828.

6. Cyllideb

Yn ogystal â chyllid Skillset, disgwylir i gwmnïau a dderbynnir i'r cynllun gyfrannu mewn ffyrdd eraill yn ogystal (darparu dysgu drwy brofiadau, gweithdai a dosbarthiadau meistr, adnoddau a chyfarpar ac ati). Bydd y gyllideb yn ddigonol ar gyfer y cwrs ar gyfer lleiafswm o 10 hyfforddai dros 20 diwrnod (byddai blociau o 1 wythnos dros 3 mis yn ddymunol).

Nid yw'r ddogfennaeth dendr hon yn nodi disgwyliadau Skillset o safbwynt y gost na'r gyllideb a ganiateir ar gyfer y prosiect er mwyn sicrhau bod y cyflenwr arfaethedig mor gystadleuol â phosib.

7. Rheolaeth

Bydd cytundebau partneriaeth llawn yn cael eu creu ar ddechrau'r cynllun ond rydym yn disgwyl y bydd y cyfrifoldeb fel a ganlyn:

7.1 Bydd *Y Darparwr Hyfforddiant* yn rheoli a chydlynu'r cynllun yn ganolog ac yn cydgysylltu â Skillset Cymru wrth wneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys gweinyddu'r cynllun yn llawn, monitro ansawdd, tracio cynnydd yr hyfforddeion a gweithredu fel dilysydd cyflawniad yr hyfforddeion.

7.2 Bydd *Cyflogwyr* yn goruchwylio cynnydd yr hyfforddeion a gweithredu fel dilysydd allanol cyflawniad yr hyfforddeion.

8. Dogfen Dendr

Rydym yn gwahodd ceisiadau tendr gan ddarparwyr hyfforddiant unigol, neu gyd-ddarparwyr, sy'n amlinellu'r canlynol:

8.1 Y gyllideb
8.2 Hyfforddwyr (tiwtoriaid, mentoriaid ac ati..)
8.3 Gofod a chyfleusterau hyfforddiant
8.4 Dulliau cyflwyno
8.5 Sut y byddwch yn gweithio gyda'r cwmnïau sy'n cymryd rhan yn y cynllun (yn enwedig sut y byddwch yn defnyddio'r cynnig o gefnogaeth "mewn da")
8.6 Sylwadau ar fanylion y cwricwlwm
8.7 Amserlen arfaethedig
8.8 Proses ar gyfer asesu cyflawniad hyfforddeion

9. Gwerthuso Cynigion Tendr

Grŵp Llywio First Post Cymru fydd yn gwerthuso'r cynigion a gyflwynir.

Y meini prawf gwerthuso, nad ydynt mewn unrhyw drefn benodol, yw:

- Hanes o ymgymryd â gwaith tebyg a/neu weithio gydag amrywiaeth o wahanol bartneriaid yn y diwydiant a rhai cyhoeddus, a rhanddeiliaid
- Gwybodaeth o hyfforddiant tra'n gweithio
- Dichonoldeb y rhaglen waith
- Gwerth am arian